ATODLEN 2

GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER LLADD ANIFEILIAID AC EITHRIO MEWN LLADD-DAI

RHAN 3

Gweithrediadau trin

Anifeiliaid sydd wedi profi poen neu ddioddefaint ac anifeiliaid nas diddyfnwyd

13. Rhaid i weithredwr y busnes ac unrhyw berson sy'n ymwneud â symud anifeiliaid neu ddarparu gwalfeydd iddynt sicrhau bod anifeiliaid fel a ganlyn yn cael eu lladd ar unwaith—

(a) anifeiliaid sydd wedi profi poen neu ddioddefaint wrth eu cludo neu ar ôl cyrraedd; a

(b) anifeiliaid sy'n rhy ifanc i gymryd bwyd anifeiliaid solet.